**Cyfarfod Fforwm Hil Cymru**
**22 Mehefin 2015 11.00am - 12.30pm**
**Tŷ Hywel, Bae Caerdydd, Caerdydd**

**Yn bresennol:**

**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

| | |
|---|---|
| Samsunear Ali | BAWSO (Hefyd yn cynrychioli Cyngor Hil Cymru) |
| Rocio Cifuentes | Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) |
| Aled Edwards | Cynrychiolydd y Fforwm Cymunedau Ffydd |
| Isaac Blake | Cwmni Diwylliant a Chelf Romani |
| Cath Fortune | Prosiect Undod |
| Maria Mesa | Women Connect First |
| Shahien Taj | Sefydliad Henna |
| Sunil Patel | Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth |
| David Phillips | Grŵp Cydraddoldeb Cymru |
| Daniel Hurford | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Hannah Wharf | Cyngor Ffoaduriaid Cymru |
| Mark Warrender | Heddlu Gwent |
| Heather Powell | Heddlu Gwent |

**Swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Amelia John | Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Dyfodol Tecach |
| Andrea Adams | Is-adran Dyfodol Tecach |
| Sarah Austin | Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Uzo Iwobi | Cyngor Hil Cymru |
| Melineh Essavy | Hope2Shine (ABCD Cymru gynt) |
| Glenn Jordan | Cymdeithas Hanes Pobl Dduon |
| Shereen Williams | Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarth Dwyrain Gwent |
| Mandy Burrows | Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarth y Gogledd-ddwyrain |

**Croeso a chyflwyniadau**

1. Croesawodd y Gweinidog bawb i'r cyfarfod. Gofynnodd y Gweinidog i bawb o amgylch y bwrdd gyflwyno'u hunain, er gwybodaeth i'r gwahoddedigion ychwanegol. Eglurodd y Gweinidog na fyddai Uzo yn bresennol yn y digwyddiad yn sgil profedigaeth deuluol yn ddiweddar. Mynegodd yr aelodau eu cydymdeimlad i Uzo ar y newyddion trist hwn.

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

2. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 13Ionawr yn gywir, a nodwyd hynt y camau gweithredu.

**Eitem 1 ar yr Agenda : Canllawiau Iechyd Sipsiwn a Theithwyr**
**( Sarah Austin, Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol)**

3. Atgoffodd y Gweinidog bawb am y penderfyniad yn y cyfarfod Cynllunio a Datblygu llynedd mai thema'r Fforwm nesaf fydd Materion Iechyd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Gofynnwyd i'r Fforwm am syniadau ynghylch meysydd i'w trafod.

4. Dywedodd y Gweinidog bod *Teithio at Iechyd Gwell* yn ganllaw i ymarferwyr gofal iechyd ar weithio'n effeithiol gyda'r cymunedau o Sipsiwn a Theithwyr. Cafodd ei lunio i fodloni'r amcanion iechyd sydd o fewn *Teithio at Ddyfodol Gwell*, strategaeth ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Wrth ochr y canllawiau mae cyfres o ddogfennau ategol, ac fe fyddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn ystod yr haf eleni. Ymhlith y dogfennau hyn mae Llyfryddiaeth, rhestr o Enwau Cyswllt ac Adnoddau Defnyddiol, cyfres o chwe Atodiad megis enghraifft o ffurflen asesiad anghenion iechyd, a chyfres o Ddulliau Mesur Canlyniadau ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol a Llywodraeth Cymru. Hefyd bydd nodyn cyngor ar ymwybyddiaeth ddiwylliannol, wedi'i baratoi ar y cyd gyda Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol.

5. Gwahoddodd y Gweinidog Sarah Austin i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm am y canllawiau *Teithio at Iechyd Gwell*.

6. Dywedodd Sarah fod ymchwil yn dangos yn fras, wrth gymharu Sipsiwn a Theithwyr gyda'r boblogaeth yn gyffredinol, bod eu bywydau yn fyrrach, eu hiechyd ddim cystal, bod ganddynt gyfraddau uwch o afiechydon cronig megis clefyd cardiofasgwlaidd, canser, diabetes, asthma a chyflyrau anadlu eraill, cyfraddau uwch o farw-enedigaethau a gwaeth iechyd meddwl. Mae tystiolaeth yn ymddangos hefyd am fwy o gamddefnyddio sylweddau.

7. Yn gyffredinol mae lefelau llythrennedd yn isel ymysg Sipsiwn a Theithwyr, ac mae hyn yn golygu efallai bod angen i lythyrau a gwybodaeth bersonol gael eu darllen yn uchel iddynt gan deuluoedd a grwpiau eiriolaeth. Mae'r Prosiect Undod a gwaith y Cwmni Celf a Diwylliant Romani yn darparu cymorth ac eiriolaeth ar ran Sipsiwn a Theithwyr. Fel rheol mae Sipsiwn a Theithwyr yn amheus iawn o ddefnyddio gwasanaethau prif ffrwd. Mae'n bwysig i ni lunio gwasanaethau sy'n addas ar gyfer gofynion pobl - yn hytrach na disgwyl i'r bobl gydymffurfio â'r gwasanaethau.

8. Er mwyn rhoi sylw i'r materion hyn bydd Llywodraeth Cymru cyn hir yn cyhoeddi *Teithio at Iechyd Gwell*.

9. Ceir tair prif ran i'r canllawiau: cyngor ar ymwybyddiaeth ddiwylliannol i’r ymarferwyr; cyngor ar arferion proffesiynol a allai annog mwy o gyfranogaeth mewn iechyd a gwasanaethau iechyd; a dadansoddiad cryno o'r ymchwil a'r sylfaen o dystiolaeth sydd ar gael i ddarparu'r rhesymeg am y canllawiau. Mae'r canllawiau'n ceisio uno'r holl elfennau hyn, a dyma'r cyntaf o'i fath i gynnig yr wybodaeth a'r cyngor hwn i ymarferwyr iechyd.

10. Bydd y daflen gynghori ar ymwybyddiaeth ddiwylliannol ar gael ym mhob meddygfa yng Nghymru. Rydym yn gwybod bod Sipsiwn a

Theithwyr yn cael trafferthion wrth gofrestru'n barhaol neu dros dro gyda meddygfeydd. Fodd bynnag, mae'n gamgymeriad - ac yn anghyfreithlon - rhagdybio bod bywyd nomadig yn atal gwahanol gymunedau rhag cofrestru gyda meddygfa. Mae hefyd yn gamgymeriad rhagdybio bod Sipsiwn a Theithwyr yn byw bywydau nomadig - mae nifer bellach yn byw mewn llety sefydlog. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i fonitro ethnigrwydd yn well drwy gynnwys categorïau Sipsiwn a Theithwyr Cyfrifiad 2011 yn systemau cofnodi canolog y GIG. Heb ddata da, nid oes modd cynllunio gwasanaethau a'u llunio i ddiwallu anghenion. Bydd gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ddatblygu deunyddiau hyrwyddo iechyd mewn ffurfiau hygyrch - dyma un o Ddulliau Mesur Canlyniadau Llywodraeth Cymru. Bydd y gwaith hwn yn digwydd gyda sefydliadau sy'n gweithio gyda chymunedau, a gyda'r Sipsiwn a Theithwyr eu hunain.

11. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori gyda nifer o randdeiliaid, ymchwilwyr a sefydliadau â buddiant yn y mater hwn wrth gynhyrchu'r canllawiau - cafwyd 31 ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol ac mae modd gweld adroddiad yr ymgynghoriad yma: . http://llyw.cymru/consultations/healthsocialcare/travelling/?skip=1&lang=cy.

12. Ymhen blwyddyn bydd Llywodraeth Cymru'n ysgrifennu at y Byrddau Iechyd Lleol i asesu i ba raddau mae'r Dulliau Mesur Canlyniadau wedi'u cyflawni: sut mae pethau wedi newid/gwella?

**Eitem 2 ar yr Agenda: Proses Gyfeirio Troseddau Casineb (Yr Uwch-arolygydd Mark Warrender)**

13. Croesawodd y Gweinidog yr Uwch-arolygydd Mark Warrender o Heddlu Gwent a Chadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar gyfer Troseddau Casineb er mwyn rhoi amlinelliad bras o'r broses gyfeirio. Dyma un o'r camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf.

14. Dywedodd Mark mai'r Fframwaith Troseddau a Digwyddiadau Casineb yw sylfaen y gwaith sy'n cael ei gyflawni gan y Bwrdd. Mae gan y Bwrdd ei Gynllun Cyflawni ei hun, sy'n rhan o Gynllun Cyflawni cyffredinol Llywodraeth Cymru ar Droseddau Casineb. Mae'r Bwrdd yn cael ei gynrychioli gan nifer o asiantaethau cyfiawnder troseddol megis Swyddfeydd y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Prawf Cymru ac asiantaethau eraill.

15. Eglurodd Mark fod Heddluoedd Cymru am i bobl adrodd am droseddau a digwyddiadau casineb y maen nhw yn eu dioddef, neu y maen nhw'n eu gweld yn digwydd i eraill. Mae gwahanol ffyrdd o wneud adroddiad am droseddau casineb. Gall bobl ffonio 101, ond ar gyfer troseddau treisgar neu mewn argyfwng dylid ffonio 999. Mae gan Gymru wasanaeth cyfeirio trydydd parti drwy Cymorth i Ddioddefwyr, a fydd yn cynnig gwasanaeth eirioli i helpu dioddefwyr. Yn aml nid yw'r dioddefwyr yn gwneud cwyn am y drosedd eu hunain, ond bydd aelodau eraill o'r teulu, ffrindiau neu gymdogion yn gwneud adroddiad wrth yr heddlu.

16. Mae'n haws adnabod troseddau ar sail hil ac mae cymunedau'n deall bod hyn yn anghyfreithlon. Nid yw'r cymunedau cystal am adnabod troseddau casineb eraill ar sail nodweddion gwarchodedig fel anabledd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol neu drawsrywioldeb; mae her i godi ymwybyddiaeth yma. Mae troseddau casineb yn aml yn cael eu galw'n ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac mae hyn yn achosi problemau o ran ei adnabod a chynnig cymorth.

17. Mae'r Bwrdd yn gweithio drwy'r cynllun cyflawni i ystyried ffyrdd o wella cysondeb yn y ddarpariaeth ar draws Cymru, a rhannu arferion a datblygiadau newydd i gael mwy o hyblygrwydd i'r dioddefwyr. Er enghraifft, mae cynllun peilot yn cael ei drefnu ar hyn o bryd i bennu diwrnod i'r Llysoedd Ynadon wrando ar achosion o droseddau casineb, er mwyn sicrhau bod modd cynnig gwasanaethau i ddioddefwyr mewn un man canolog, a gwella cysondeb yn y dedfrydau.

18. Mae tipyn mwy o droseddau casineb ar sail anabledd yn digwydd nag sy'n cael eu hadrodd o hyd, ac mae angen codi ymwybyddiaeth am yr effaith ar draws y cymunedau. Mae hyn yn arbennig o wir yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, wrth i bobl gael eu beio ar gam a'u haflonyddu, a'u galw'n 'scrounger' neu eu cyhuddo o dwyllo i gael budd-daliadau. Wrth annog pobl i wneud adroddiadau am droseddau casineb, mae'n bwysig dewis mannau lle mae pobl â nodweddion gwarchodedig eraill yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus neu wasanaethau eraill er mwyn sicrhau bod y cymorth a'r eiriolaeth sydd ar gael yn amlwg.

19. Dywedodd Rocio bod EYST wedi cael profiad o weithio gyda phobl ifanc mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac fe gynigiodd rannu eu profiad a chydweithio gyda'r heddlu i roi sylw i'r mater hwn. Fodd bynnag, nodwyd bod cyfeiriadau i unigolion sy'n cael eu cyhuddo o droseddau casineb yn digwydd ad hoc, a bod angen mwy o gysondeb a strwythur ledled Cymru.

20. Cytunodd Mark fod angen edrych i weld beth sy'n gyffredin ar draws y systemau er mwyn edrych ar ddulliau gweithredu cyson ledled Cymru. Mae'r Bwrdd yn edrych ar ffyrdd o ddarparu dulliau gweithredu cyson. Mae heddweision sydd ar y llinell flaen yn cael hyfforddiant ar droseddau casineb er mwyn sicrhau eu bod yn gallu adnabod arwyddion troseddau casineb a helpu dioddefwyr. Mae angen parhau i gyflwyno hyfforddiant wyneb yn wyneb ac mae hyfforddiant e-ddysgu ategol ar gael.

21. Gall cymhlethdodau godi wrth i heddweision gymryd datganiadau gan bobl â nodweddion gwarchodedig. Drwy gael eu hyfforddi mae Heddweision yn gwybod mwy am ffyrdd o gysylltu gyda phobl a chymunedau. Fodd bynnag, gall cymhlethdodau godi wrth gofnodi trosedd ac ymchwilio iddi pan fo angen tystiolaeth glir am elfen gasineb y drosedd. Mae Heddlu Gwent yn y broses o ddatblygu hyfforddiant penodol i helpu i adnabod troseddau casineb ar sail anabledd.

22. Gall agweddau pobl tuag at adrodd am droseddau casineb gael eu heffeithio gan y ffaith bod troseddau o'r fath yn cael eu gweld yn beth cyffredin, neu o bosib gan eu hofn o'r awdurdodau, er enghraifft os ydynt yn geiswyr lloches neu'n ffoaduriaid. Mae cysylltu â'r gymuned i godi hyder pobl i ddod ymlaen yn parhau i fod yn flaenoriaeth sylweddol.

23. Dywedodd Heather bod ymgynghoriad a gynhaliwyd yn flaenorol yng Ngwent wedi nodi ofn awdurdod fel rhwystr sylweddol i geiswyr lloches a ffoaduriaid rhag adrodd am droseddau, a rhan allweddol o'r broses i herio hyn oedd adeiladu perthynas hyderus gyda heddweision unigol yr oedd pobl yn teimlo bod modd siarad â nhw. Eleni dechreuodd cynllun peilot ar gyfer Mewnfudwyr o Ddwyrain Ewrop ar sail egwyddorion ESOL ond yn edrych ar ddiwylliant yr heddlu, a luniwyd i herio rhai o'r camdybiaethau posibl sydd gan bobl o wledydd eraill am system heddlu'r DU. Gobeithir cynnal cyrsiau pellach o fewn cymunedau eraill.

24. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:
    - Nid oes digon o hyder gan rai menywod o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig i wneud cwynion am droseddau casineb eu hunain, ac maent yn mynd drwy sefydliadau trydydd sector eraill.
    - Gellir gweld rhai enghreifftiau da o gydlyniant cymunedol ac adeiladu ymddiriedaeth yn yr heddlu i godi ymwybyddiaeth ynghylch adroddiadau mewn cymunedau.

25. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn falch o ariannu Canolfan Genedlaethol Swyddogol ar gyfer rhoi Cymorth ac Adrodd am Droseddau Casineb drwy Cymorth i Ddioddefwyr. Rydym am weld nifer yr adroddiadau am droseddau casineb yn codi yn y tymor byr, gan nad yw pob achos yn cael ei ddwyn i sylw'r heddlu ar hyn o bryd. Mae cysylltiadau gyda chamau gweithredu tebyg wrth ddelio â chaethwasiaeth fodern. Mae Cymru wedi bod yn flaengar iawn yn rhoi sylw i'r digwyddiadau hyn, gyda rhaglenni fel Prosiect 'Think' gan EYST.

**Camau i'w cymryd:** Bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref am faterion yn ymwneud ag adnabod troseddau casineb o fewn system y llysoedd.

### Eitem 3 ar yr Agenda – Adolygiad o'r Amcanion Cydraddoldeb

**(Amelia John, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Dyfodol Tecach)**

26. Atgoffodd y Gweinidog bawb bod swyddogion wedi ysgrifennu at yr aelodau ers y cyfarfod diwethaf i egluro gweithrediad Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 , sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gysylltu â gwahanol grwpiau ac unigolion er mwyn cynhyrchu Amcanion Cydraddoldeb sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Cyhoeddwyd y rhain yng Nghynllun

Cydraddoldeb Strategol 2012-16. Bellach mae gofyn i Lywodraeth Cymru adolygu'r Amcanion Cydraddoldeb a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd erbyn 1 Ebrill 2016.

27. Gwahoddodd y Gweinidog Amelia i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgynghoriad ar adolygiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r cyllid Cydraddoldeb a Chynhwysiant.

28. Eglurodd Amelia bod Llywodraeth Cymru wedi lansio'r ymgynghoriad ar yr amcanion cydraddoldeb ar 20 Ebrill, ac yn ymgynghori ar Raglen Cyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant ar gyfer 2017-2020 ar yr un pryd. Bydd y ddau ymgynghoriad yn dod i ben ar 10 Gorffennaf. Rydym am sicrhau bod yr amcanion cydraddoldeb newydd, ar gyfer y pedair blynedd nesaf rhwng 2016-2020, yn adlewyrchu blaenoriaethau'r rhai sydd dan fwyaf o anfantais mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y dull gweithredu hwn yn gymorth i nodi pa amcanion sydd fwyaf tebygol o wneud y gwahaniaeth mwyaf wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac edrych ar y bylchau presennol mewn darpariaeth.

29. Mae'r Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn dod i ben ar 31 Mawrth 2017. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn pob un o'r rhanddeiliaid ynghylch sut y dylid datblygu cyllid ar gyfer y Trydydd Sector ar ôl y dyddiad hwn. Nod yr ymgynghoriad yw sicrhau bod cyllid 2017-2020 yn strategol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau, a'i fod yn diwallu anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig yng Nghymru.

30. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal pedwar digwyddiad ymgynghori: dau yng Nghaerdydd (ac un arall i ddod), ac un yr un yng Nghyffordd Llandudno ac yn Abertawe. Mae'r adborth a gafwyd o'r digwyddiadau hyn wedi bod yn gadarnhaol dros ben. Mae rhai syniadau wedi codi o'r ymgynghoriad, megis cyflwyno gwahanol ystodau o brosiectau gwahanol faint a chyllid amrywiol. Gallwch weld y dogfennau ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru.

31. Mae rhai Grwpiau Cydraddoldeb yn cynnal grwpiau ffocws gyda'u rhanddeiliaid fel rhan o'r ymgynghoriad, ac mae Llywodraeth Cymru'n gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn.

32. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:
  - Gall fod yn anodd i sefydliadau bach gael amser i gyflwyno'u barn i'r ymgynghoriad gan fod angen rhoi sylw i alwadau eraill.
  - Er bod Llywodraeth Cymru'n talu rhai costau i'r grwpiau ffocws, er enghraifft llogi lleoliad, lluniaeth ysgafn, gofal plant a chostau teithio, dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mwy mewn sefydliadau i gael barn amrywiol gymunedau.
  - Mae'n anodd cael cymunedau amrywiol at ei gilydd yn ystod Ramadan.
  - Gall sefydliadau llai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ei gweld yn anodd cystadlu gyda sefydliadau mwy am gyllid grant.

33. Cyn gynted ag y daw'r ymgynghoriad i ben, bydd ymatebion ac allbwn y gweithdai a'r grwpiau ffocws yn cael eu dadansoddi cyn i Lywodraeth Cymru ddechrau drafftio'r Amcanion diwygiedig. Bydd crynodeb o'r dystiolaeth a'r canfyddiadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd swyddogion yr Is-adran Dyfodol Tecach yn gweithio gydag Adrannau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pawb yn gwybod cefndir yr amcanion - beth, pam a sut - ac yn fwyaf pwysig, mae angen iddynt wybod beth mae'n ei olygu o ran eu gwaith o ddydd i ddydd a'u cyfraniad posibl. Bydd y swyddogion hyn hefyd yn hwyluso gwaith ar draws adrannau, lle bo'n briodol, gan nodi lle gellid cydweithio.

34. Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb terfynol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru erbyn 1 Ebrill 2016. Mae'r Amcanion Cydraddoldeb yn rhai lefel uchel. Bydd pob amcan yn cynnwys camau gweithredu manwl yn dangos sut bydd Llywodraeth Cymru'n symud ymlaen â'r amcan penodol hwnnw. Byddant yn cael eu cyhoeddi yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei gefnogi a'i ategu gan strategaethau eraill Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar feysydd polisi penodol.

**Camau i'w cymryd :** Yr ysgrifenyddiaeth i ail-anfon gwybodaeth ynghylch sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar-lein.

**Eitem 4 ar yr Agenda - Unrhyw fater arall**

**Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Hawliau Dynol (Aled Edwards).**

35. Cyflwynodd Aled yr eitem hon ar yr agenda. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau i gael gwared â'r Ddeddf Hawliau Dynol a chael Deddf Hawliau Dynol Brydeinig yn lle hynny. Byddai hynny'n 'torri'r cysylltiad ffurfiol rhwng Llysoedd Prydain a Llys Hawliau Dynol Ewrop (ECHR)'. Nid oes sicrwydd am y goblygiadau, fodd bynnag gallai hyn olygu bod rhaid i bobl sydd am gyflwyno achos hawliau dynol dan yr ECHR fynd i lys yn Strasbwrg am wrandawiad. Nid yw'n glir a fyddai Deddf Hawliau Dynol newydd o'r fath yn parhau i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gynnal hawliau dynol.

36. Bydd diddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol yn achosi problemau. Teimlwyd bod angen i ni yng Nghymru feddwl sut ydym yn paratoi ar gyfer y newid posibl hwn. Mae Anabledd Cymru'n lobio am fwy o gydnabyddiaeth i hawliau pobl anabl. Mae deddfwriaeth hawliau dynol wedi'i hymgorffori yn Neddf yr Alban 1998.

37. Dywedodd y Gweinidog bod Prif Weinidog Cymru wedi datgan ei farn am y Ddeddf Hawliau Dynol yn glir ar sawl achlysur, gan gynnwys yn ystod cwestiynau'r Prif Weinidog ar 12 Mai 2015. Dywedodd y Prif Weinidog y byddai Llywodraeth Cymru'n gwneud popeth o fewn ei

gallu i sicrhau nad yw'r hawliau yr ydym yn eu mwynhau ar hyn o bryd yn cael eu herydu o gwbl gan unrhyw gynigion o gyfeiriad Llywodraeth y DU.

38. Yn nhrafodaeth yr wrthblaid ar 3 Mehefin 2015, dywedodd y Gweinidog bod y Ddeddf Hawliau Dynol yn ffordd i bobl Cymru herio anghydraddoldeb ac anghyfiawnder, ac y byddai cynnig Llywodraeth y DU i ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol yn gam yn ôl ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol. Bydd Llywodraeth Cymru'n gwrthwynebu unrhyw ymgais gan Lywodraeth y DU i ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol. Bydd Llywodraeth Cymru'n gwneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau nad yw'r hawliau y mae ein dinasyddion yn eu mwynhau ar hyn o bryd yn cael eu herydu o gwbl gan unrhyw gynigion o gyfeiriad Llywodraeth y DU.

39. Mae hawliau dynol wrth galon gweithredoedd Llywodraeth Cymru. Mae Deddf Llywodraeth Cymru'n atal Llywodraeth Cymru rhag gweithredu'n anghyson gyda hawliau'r Confensiwn sydd i'w gweld yn y Ddeddf Hawliau Dynol, ac nid oes modd i'r Cynulliad ddeddfu mewn ffordd anghyson.

40. Deellir y byddai angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol i ddiddymu'r Ddeddf. Fel mater o egwyddor, byddem yn disgwyl i Lywodraeth y DU geisio cytundeb y Cynulliad i unrhyw gynigion. Byddai Deddf Hawliau Dynol Brydeinig heb gefnogaeth y llywodraethau datganoledig, o leiaf o ran materion sydd wedi'u datganoli, yn arwain at broblemau cyfansoddiadol difrifol.

**Camau i'w cymryd:** Bydd y Gweinidog yn adrodd ar unrhyw ddatblygiadau i'r cynnig ynghylch y Ddeddf Hawliau Dynol.

## Prosiectau Troseddau Casineb a gyflawnwyd gan Grŵp Cydraddoldeb Cymru

41. Rhoddodd David Phillips gyflwyniad ar ran y Grŵp yn y cyfarfod diwethaf, ynghylch cynnydd y Prosiectau Troseddau Casineb sy'n cael eu cyflawni ganddynt. Mae'r ysgrifenyddiaeth, ar ran y Grŵp, wedi anfon cylchlythyr Race Equality First ymlaen i aelodau, er mwyn iddynt gael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y prosiectau.

## Cyfarfodydd Cynllunio a Datblygu

42. Atgoffodd y Gweinidog yr Aelodau eu bod wedi cael e-bost gan yr Ysgrifenyddiaeth, yn gofyn am enwebiadau i ymuno â'r Grŵp Cynllunio a Datblygu. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n croesawu cyfranogiad ar y Grŵp gan ei fod yn cefnogi gwaith y Fforwm ac yn nodi materion pwysig i'w codi mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

## Arolwg Troseddau Casineb Cyngor Hil Cymru a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector.

43. Mae Cyngor Hil Cymru wedi cwblhau arolwg ar ran Llywodraeth Cymru, drwy'r Grŵp Cynghori Annibynnol, i adeiladu darlun o brofiadau pobl o droseddau a digwyddiadau casineb. Mae'r canfyddiadau wedi'u trosglwyddo i Lywodraeth Cymru, a bydd Cyngor Hil Cymru'n parhau i weithio er mwyn gwerthuso'r ddarpariaeth. Mae Heddlu Gwent yn ariannu Cyngor Hil Cymru i gynnal gwaith tebyg gyda chymunedau Gwent.

44. Bydd Uzo yn rhoi rhagor o wybodaeth am Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn y cyfarfod nesaf.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

45. Bydd y cyfarfod nesaf ym Mharc Cathays ar 21 Ionawr 2016, 11am-12.30pm.